OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 305 (Cy. 101)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("y Rheoliadau Optegol") sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr aethpwyd iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

Mae rheoliad 2 a'r Atodlen yn diwygio Atodlenni 1, 2 a 3 i'r Rheoliadau Optegol i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o gyflenwi ac amnewid sbectolau a lensys cyffwrdd, i gynyddu gwerthoedd ychwanegol y talebau ar gyfer prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd a chategorïau arbennig o declynnau ac i gynyddu gwerth y talebau a ddyroddir tuag at y gost o drwsio ac amnewid teclynnau optegol.

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a dderbyniwyd neu a ddefnyddiwyd cyn 31 Mawrth 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 305 (Cy. 101)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Mawrth 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Mawrth 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 128, 129, 130, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2016 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

**Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol**

**2.**—(1) Mae Atodlenni 1 i 3 i'r Rheoliadau Optegol wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau ac wynebwerthoedd talebau – cyflenwi ac amnewid) yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o dabl 1 isod rhodder y

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

**Tabl 1**

| *(1) Swm Blaenorol* | *(2) Swm Newydd* |
|---|---|
| £38.70 | £39.10 |
| £58.70 | £59.30 |
| £86.00 | £86.90 |
| £194.10 | £196.00 |
| £66.80 | £67.50 |
| £84.80 | £85.60 |
| £110.10 | £111.20 |
| £213.40 | £215.50 |
| £198.80 | £200.80 |
| £56.40 | £57.00 |

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig, a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£12.50" rhodder "£12.60";

(b) ym mharagraff 1(1)(b), yn lle "£15.20" rhodder "£15.40";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£4.30" rhodder "£4.40";

(d) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.80" rhodder "£4.90";

(e) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£63.60", "£56.40" a "£30.50" rhodder "£64.20", "£57.00" a "£30.80" yn eu trefn;

(f) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£63.60" rhodder "£64.20";

(g) ym mharagraff 2(a), yn lle "£14.50" rhodder "£14.60"; a

(h) ym mharagraff 2(b), yn lle "£37.00" rhodder "£37.40".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau - trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

**Darpariaeth drosiannol**

**3.** Dim ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar 1 Ebrill 2016 neu ar ôl hynny y mae'r symiau a amnewidir gan reoliad 2 yn gymwys.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
3 Mawrth 2016

## YR ATODLEN Rheoliad 2(4)

Atodlen 3 i’r Rheoliadau Optegol fel y’i hamnewidir gan y Rheoliadau hyn

## “SCHEDULE 3

## Voucher Values Repair Regulation 19(2) and (3)

| *(1)* *Nature of Repair* | *(2)* *Letter of Codes - Values* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Repair or replacement of one lens | 12.15 | 22.25 | 36.05 | 90.60 | 26.35 | 35.40 | 48.20 | 100.35 | 93.00 |
| Repair or replacement of two lenses | 24.30 | 44.50 | 72.10 | 181.20 | 52.70 | 70.80 | 96.40 | 200.70 | 186.00 |
| Repair or replacement of: the front of a frame | 12.45 | 12.45 | 12.45 | 12.45 | 12.45 | 12.45 | 12.45 | 12.45 | 12.45 |
| a side of a frame | 7.35 | 7.35 | 7.35 | 7.35 | 7.35 | 7.35 | 7.35 | 7.35 | 7.35 |
| the whole frame | 14.80 | 14.80 | 14.80 | 14.80 | 14.80 | 14.80 | 14.80 | 14.80 | 14.80” |